Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



# Hanfodion cofrestru

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth hanfodol am eich cofrestriad gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

**Hydref 2023**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

# Cynnwys

Croeso i'r Gofrestr yng Nghymru....4
Y Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol....6
Y Côd a'r canllawiau ymarfer....7
Deddfwriaeth bwysig....8
Addasrwydd i ymarfer....9
GCCarlein....10
Cofrestriad digidol....11
ApCofrestru....11
Eich taith cofrestru....12
Eich cyfrifoldeb i ddiweddaru eich manylion cofrestru....13
Ffioeddcofrestru....14
Adnewyddu eich cofrestriad....15
Eich datblygiad proffesiynol parhaus DPP....16
Cynnal eich cofrestriad a gadael y Gofrestr....17
Datblygiad Proffesiynol Parhaus i weithwyr cymdeithasol....19
Gofalwn Cymru....20
Eich cynorthwyydd cofrestru....21
Adnoddau defnyddiol....22
Cysylltwch â ni....23

Os oes angen y canllaw hwn arnoch mewn unrhyw fformat arall, cysylltwch â'n tîm cofrestru. Gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt ar dudalen 23.

## Canllaw ac allwedd i ddefnyddwyr

• Canllaw 'clicio a mynd' yw hwn, sy'n eich galluogi i ddod o hyd i wybodaeth am bynciau penodol yn gyflym ac yn uniongyrchol

• Mae'r dudalen gynnwys yn dangos beth mae pob adran o'r ddogfen yn ei gwmpasu. Cliciwch yr adran sydd ei heisiau arnoch, a byddwch yn mynd yn syth ati

• Trwy gydol y ddogfen, cliciwch ar unrhyw ddolen we i fynd i'r wefan honno. Gallwch glicio'r botwm unrhyw adeg i ddod yn ôl i'r dudalen hon

• Gellir clicio ar ddelweddau yn y canllaw hwn i agor y ddogfen neu tudalen we.

## Mae'r canllaw hwn am eich cofrestriad gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

A oeddech chi'n gwybod:

- gan eich bod wedi cofrestru, gallwch ddod o hyd i'ch enw nawr ar y **Gofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol**
- gallwch ganfod mwy amdanom ni ar ein gwefan
- gallwch ein dilyn a'n trydar ar Twitter **@gofcymdeithasol**
- gallwch fynd i'n tudalen Facebook yn facebook.com/GofalCymdeithasolCymruSocialCareWales

# Croeso i'r Gofrestr yng Nghymru

Trwy gofrestru, rydych yn cadarnhau eich statws proffesiynol trwy ymrwymo i:

- ategu'r safonau yn y **Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol** bob amser
- diweddaru eich cofrestriad, eich manylion cyswllt a'ch manylion cyflogaeth yn rheolaidd
- cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), a'i gofnodi
- cyflawni'r cymhwyster sy'n ofynnol ar gyfer eich rôl (lle bo hynny'n briodol).

Rydym yn arwain ystod o waith i ddatblygu a chynorthwyo unigolion a'r proffesiwn yn gyffredinol. Rydym wedi ymrwymo i'ch cynorthwyo trwy ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a phroffesiynol i'r pobl y byddwch yn dod i gysylltiad â nhw. Byddwn yn cadw mewn cysylltiad â chi gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost rydych chi wedi'i roi i ni. Byddwn yn rhannu gwybodaeth trwy ein cyfrif X, cyfrif Facebook a'n gwefan hefyd.

Byddwn yn dweud wrthych am y canlynol:

- cyhoeddiadau newydd, fel dogfennau canllawiau ymarfer. Mae'r rhain yn dweud wrthych yn fanylach beth sy'n ddisgwyliedig ohonoch yn eich rôl gofal cymdeithasol
- unrhyw fforymau neu rwydweithiau sy'n berthnasol i chi. Mae'r rhain yn aml yn gyfle i drafod datblygiad proffesiynol, rhannu ymarfer da a chyfarfod â phobl broffesiynol eraill
- y gweithlu. Fel rhan o'n rôl, byddwn yn darparu gwybodaeth am y sector, gan gynnwys ystadegau a thueddiadau, a gellir defnyddio'r rhain ar gyfer dysgu a chynllunio'r gweithlu
- dogfennau rydym yn eu cyhoeddi. Mae'r rhain yn esbonio effaith deddfwriaeth neu newidiadau pwysig eraill yn y sector y dylech fod yn ymwybodol ohonynt.

Mae'r canllaw hwn ar gyfer yr holl unigolion cofrestredig heblaw myfyrwyr gwaith cymdeithasol. Os ydych yn fyfyriwr gwaith cymdeithasol, edrychwch ar y ddogfen Hanfodion Cofrestru Myfyrwyr, sydd ar gael yn eich adnoddau cofrestru GCCarlein.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i fod yn rhan o'r proffesiwn gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae yna lawer o heriau, ond llawer o gyfleoedd hefyd. Pob lwc â'ch rôl newydd.


## Y Rheolau Cofrestru

Mae'r Rheolau Cofrestru wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru, a nhw yw'r sail gyfreithiol ar gyfer cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol. Gellir eu gweld trwy ein gwefan: **gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/beth-yw-cofrestru**



Sefydlwyd y Gofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol (y Gofrestr) o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'r gofyniad i gadw cofrestr bellach wedi'i amlinellu yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'n gofnod cyhoeddus o'r gweithwyr gofal cymdeithasol, sydd wedi'u cofrestru gyda ni, i ymarfer yng Nghymru. Mae'r term 'gweithiwr gofal cymdeithasol' a ddefnyddir yn y canllaw hwn yn cyfeirio at yr holl unigolion cofrestredig.

Fel unigolyn cofrestredig, gallwch ddod o hyd i'ch enw ar y Gofrestr. Mae'r Gofrestr ar gael **ar-lein** a bydd enw unrhyw un sydd wedi'i gofrestru ar hyn o bryd i ymarfer yng Nghymru yn ymddangos.




Bydd y gofrestr yn dangos:

- eich enw llawn a'ch teitl
- eich rhif cofrestru
- y sir lle rydych yn gweithio
- y dyddiad y cawsoch eich cofrestru
- y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol ar gyfer eich rôl
- gwybodaeth am addasrwydd i ymarfer, er enghraifft penderfyniadau a chydymffurfiadau.

# Y Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol


Mae'r Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol (y Côd) yn amlinellu'r safonau, neu'r rheolau, ar gyfer yr holl weithwyr proffesiynol gofal a'r myfyrwyr gwaith cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'n rhoi meini prawf i arwain eich ymarfer a'ch eglurder am y safonau ymddygiad y disgwylir i chi eu bodloni. Rydych chi'n gyfrifol am wneud yn siŵr eich bod yn gweithio yn unol â'r safonau hyn bob amser ac nad oes unrhyw weithred nac esgeulustod ar eich rhan chi yn niweidio llesiant unigolion.

Byddwn yn ystyried y Côd wrth ystyried materion addasrwydd i ymarfer, a byddwn yn ymchwilio i unrhyw achosion honedig o dorri'r Côd.

Fe wnaethoch gadarnhau eich bod wedi darllen a deall y Côd fel rhan o'ch cofrestriad. Mae'r Côd a'r dolenni i'r ap ffôn symudol ar ein **gwefan**.

**Rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol:**




**1.** Barchu safbwyntiau a dymuniadau, a hyrwyddo hawliau a diddordebau unigolion a gofalwyr.

**2.** Ymdrechu i sefydlu a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion a gofalwyr.

**3.** Hyrwyddo llesiant, llais a rheolaeth unigolion a gofalwyr tra'n eu cynorthwyo i aros yn ddiogel.

**4.** Parchu hawliau unigolion tra'n ceisio sicrhau nad yw eu hymddygiad yn niweidiol iddyn nhw eu hunain na phobl eraill.

**5.** Gweithredu ag uniondeb a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn gofal cymdeithasol.

**6.** Bod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb am gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau.

**7.** Yn ogystal ag adrannau 1 i 6, os ydych chi'n gyfrifol am reoli neu arwain staff, rhaid i chi ymgorffori'r Côd yn eu gwaith.

# Y Côd a'r canllawiau ymarfer

Fel unigolyn cofrestredig, dylech sicrhau eich bod yn gyfarwydd â'r canllawiau ymarfer sy'n berthnasol ar gyfer eich rôl. Mae canllawiau ymarfer wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan ac maent ar gael i unigolion cofrestredig yn **GCCarlein** yn eich ffolder 'Adnoddau Cofrestru'. Byddwn yn ystyried y safonau a amlinellir yn y Côd a'r canllawiau ymarfer wrth ystyried honiadau o ddiffyg addasrwydd i ymarfer. Gellir defnyddio'r canllawiau ymarfer i gefnogi ac egluro'r methiant honedig i gadw at y Côd. Isod fe welwch restr o'r gwahanol ddogfennau Canllawiau Ymarfer sydd ar gael:

- **Y gweithiwr cymdeithasol, canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru gyda ni**
- **Y rheolwr gofal cymdeithasol, canllawiau ymarfer ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru gyda ni**
- **Y gweithiwr gofal preswyl i blant, canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal preswyl plant sydd wedi'u cofrestru gyda ni**
- **Y gweithiwr gofal cartref, canllaw ymarfer i weithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru gyda ni**
- **Y gweithiwr cartref gofal i oedolion, canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr cartref gofal i oedolion sydd wedi'u cofrestru gyda ni**

Gweler mwy yn: **gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/codau-ymarfer-a-chanllawiau**

# Deddfwriaeth bwysig

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Daeth ***Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*** i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'n:

- sicrhau bod pobl a'u hanghenion yn ganolog i'w gofal, gan roi mwy o lais a rheolaeth iddynt dros y gofal a gânt
- annog pobl i gael cyngor a chymorth yn gynharach i gynnal ansawdd bywyd da a lleihau neu ohirio'r angen am ofal a chymorth tymor hwy
- cynorthwyo pobl er mwyn iddynt allu sicrhau llesiant ym mhob rhan o'u bywydau
- cynnwys pobl mewn cynllunio a darparu'r cymorth a'r gwasanaethau a gânt, gan gydnabod y wybodaeth a'r arbenigedd y gallant eu cynnig.

Rydym wedi gweithio gydag ystod o bartneriaid i ddatblygu cynllun dysgu a datblygu cenedlaethol i gefnogi rhoi'r Ddeddf ar waith.

Fel rhan o'r fenter hon, rydym wedi datblygu **Hyb Gwybodaeth a Dysgu**, sef siop un stop ar gyfer yr ystod eang o ddeunyddiau dysgu a gynhyrchwyd i helpu gweithwyr proffesiynol yn y sectorau gofal cymdeithasol, iechyd a gwirfoddol i roi'r ddeddfwriaeth ar waith yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

## Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Daeth ***Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016*** yn gyfraith ar 18 Ionawr 2016, a daeth i rym yng Nghymru o fis Ebrill 2017.

Mae'r Ddeddf yn adeiladu ar y sylfeini a ddarparwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae'n canolbwyntio ar effaith y gwasanaethau y mae pobl yn eu derbyn. Crëwyd Gofal Cymdeithasol Cymru yn sgil y Ddeddf hefyd, gan ddod â Chyngor Gofal Cymru ac Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol at ei gilydd fel un sefydliad, gyda chylch gwaith ehangach.

Gallwch ddod o hyd i adnoddau a deunyddiau hyfforddi i'ch helpu i roi'r Ddeddf ar waith ar yr **Hyb Gwybodaeth a Dysgu**.

# Addasrwydd i ymarfer

**Addasrwydd i ymarfer – beth mae'n ei olygu?**
Mae addasrwydd i ymarfer yn golygu bod gan weithiwr y sgiliau, y wybodaeth, y cymhwysedd a'r cymeriad priodol sydd eu hangen i ymarfer yn y sector gofal cymdeithasol.

Byddwn yn ymchwilio i unrhyw achosion ble mae amheuaeth ynghylch addasrwydd unigolyn i ymarfer. Gallai hyn gynnwys achosion lle caiff ymddygiad unigolyn cofrestredig effaith negyddol ar lesiant a diogelwch unigolyn neu'r proffesiwn. Gallai hyn gynnwys materion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag ymarfer proffesiynol.

## Paneli addasrwydd i ymarfer

Fel arfer, cynhelir paneli addasrwydd i ymarfer yn gyhoeddus.

## Pa wybodaeth sy'n cael ei rhoi ar ein gwefan am addasrwydd i ymarfer?

Bydd gwybodaeth am rybuddion, ymgymeriadau a symudiadau trwy gytundeb â'n swyddogion addasrwydd i ymarfer. Bydd cosbau fel deilliannau o'n gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer hefyd.
**gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon**


Mae manylion am ganlyniad gwrandawiadau cyhoeddus wedi'u cyhoeddi yn: **gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/gwrandawiadau**

Ar ôl i waredіad ddod i ben, caiff y rhesymau eu dileu oddi ar y wefan, ond mae'r penderfyniad yn parhau yn amhendant.

Gellir cael mwy o wybodaeth am addasrwydd i ymarfer yn: **gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/gwrandawiadau**

# GCCarlein – ein gwasanaethau ar-lein

Gellir mynd at eich GCCarlein trwy ein gwefan trwy glicio ar y botwm yma neu drwy fynd i **GCCarlein**.




### Gallwch:

- weld eich cofnod cofrestru personol
- diweddaru eich datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) wrth i chi gwblhau unrhyw hyfforddiant neu ddysgu, a gweld eich cofnod ar unrhyw adeg
- gweld a dangos prawf o'ch cofrestriad i bobl eraill
- talu eich ffioedd
- diweddaru eich manylion cyflogaeth
- **newid eich cofrestriad** os ydych chi'n newid y grŵp rydych yn gweithio ynddo neu yn gweithio mewn mwy nag un o'r grwpiau sydd angen cofrestriad
- diweddaru eich manylion personol
- cynhyrchu derbynebau talu eich hun
- gweld eich adnewyddiad a dyddiadau y mae eich taliad blynyddol yn ddyledus
- gweld eich ffurflen adnewyddu pan mae'n ddyledus
- edrych ar wybodaeth am daliadau blaenorol
- gofyn am ddileu eich enw oddi ar y Gofrestr
- darllen canllawiau a gwybodaeth bwysig yn eich ffolder adnoddau cofrestru.

### Byddwn:

- yn cysylltu â chi gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a roesoch i ni gyda gwybodaeth am eich cofrestriad, ac yn eich gwahodd i gymryd rhan yn ein gweithgareddau
- yn rhoi cofnod cyfoes a chlir o'ch cofrestriad i chi
- yn gallu gweld eich datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar yr adeg y mae eich adnewyddiad yn ddyledus
- yn sicrhau bod eich cofnod ffioedd yn gyfoes
- yn defnyddio'r wybodaeth rydym yn ei chasglu o'r Gofrestr ac yn cynhyrchu ystadegau, adroddiadau a dogfennau canllawiau i helpu'r gweithlu.

# Diogelu data

Rydym wedi cofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae ein datganiad diogelu data ar gael ar **GCCarlein**.

# Cofrestriad digidol


Byddwn yn defnyddio cyfathrebu digidol, fel yr e-bost a negeseuon testun, pryd bynnag y bo modd gan mai dyma'r ffordd orau o roi gwasanaeth cyflym a defnyddiol i chi. Mae'r rhan fwyaf o'n pobl gofrestredig yn cyfathrebu â ni gan ddefnyddio GCCarlein a'r e-bost.

Gallwch anfon neges e-bost at y tîm cofrestru, sef: **cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru**



# Eich taith cofrestru

| Rheolwr gofal cymdeithasol | Gweithwyr gofal cymdeithasol | Gweithiwr cymdeithasol |
|---|---|---|
| Cwblhewch y cymhwyster rheolwr perthnasol ar gyfer eich rôl | Penderfynu ar eich llwybr i gofrestru | Cofrestrwch fel myfyriwr gofal cymdeithasol (os ydych yn astudio yng Nghymru) |
| Cofrestrwch fel rheolwr gofal cymdeithasol | Cofrestrwch fel gweithiwr gofal cymdeithasol | Cymhwyswch fel gweithiwr cymdeithasol |
| Dylech gynnal o leiaf 90 awr o datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) bob tair blynedd | Rhoi tystiolaeth inni i ddangos bod unrhyw gydymffurfiad gofynnol wedi'i gwblhau (lle mae angen cymhwyster ar gyfer eich rôl) | Cofrestrwch gyda ni fel gweithiwr cymdeithasol |
| Camau cyntaf mewn rheoli adnoddau | Dylech gynnal o leiaf 45 awr o datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) bob tair blynedd | Parhewch â'ch dysgu ac addysg proffesiynol parhaus (DAPP) – gweler tudalen 15 yn y canllaw hwn |
| Gallwch ddiweddaru'ch datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar eich cyfrif GCCarlein ar unrhyw adeg | Gallwch ddiweddaru'ch DPP ar eich cyfrif GCCarlein ar unrhyw adeg | Dylech gynnal o leiaf 90 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) bob tair blynedd |
| Adnewyddwch eich cofrestriad bob tair blynedd | Adnewyddwch eich cofrestriad bob tair blynedd | Gallwch ddiweddaru'ch DPP ar eich cyfrif GCCarlein ar unrhyw adeg |
| | | Adnewyddwch eich cofrestriad bob tair blynedd |




I gael mwy o wybodaeth am eich taith i gofrestru, ewch i'n gwefan, sef: **gofalcymdeithasol.cymru**

# Eich cyfrifoldeb i ddiweddaru eich manylion cofrestru

Eich cyfrifoldeb chi yw diweddaru eich manylion. **Mae eich cyfeiriad e-bost yn allweddol i ni allu cysylltu â chi.** Rhaid i chi ddiweddaru eich manylion cyflogaeth presennol er mwyn gallu ymarfer. Mae angen i ni gael eich **manylion cyswllt cyfredol** er mwyn i ni allu anfon nodyn atgoffa atoch pan fydd eich ffi flynyddol a'ch adnewyddiad yn ddyledus. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am newidiadau i'ch manylion personol, gellir eich cyfeirio at ein tîm addasrwydd i ymarfer. Byddwn hefyd yn anfon gwybodaeth a gwahoddiadau i fforymau atoch, ac yn gofyn i chi gymryd rhan mewn ymgynghoriadau.

Newidiadau y mae'n **rhaid** i chi ddweud wrthym amdanynt:

- manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriadau e-bost personol, cyfeiriad cartref a rhif ffôn symudol
- newid i'ch cyflogaeth fel teitl swydd, rheoli gwasanaeth gwahanol, cyfeiriad gwaith
- os ydych chi'n gweithio mewn **mwy nag un o'r grwpiau sydd wedi'u rhestru uchod**, neu os byddwch yn newid y grŵp rydych chi'n gweithio ynddo
- unrhyw newid i'ch cofnod troseddol neu'ch cofnod disgyblu
- unrhyw newid i'ch iechyd sy'n effeithio ar eich gwaith ym maes gofal cymdeithasol
- cofrestru gyda chorff rheoleiddio arall, er enghraifft y **Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**
- newid enw neu deitl – dylech gofrestru yn yr enw rydych yn cael eich adnabod wrtho yn y gwaith er mwyn i bobl allu eich adnabod ar y Gofrestr.

| **Pa dystiolaeth sydd ei hangen:** | |
|---|---|
| Newid | Dogfen |
| Newid enw | Llungopi ***gwiriedig*** o'ch tystysgrif priodas, partneriaeth sifil, neu weithred newid enw |

# Sut i ddweud wrthym

Gallwch weld eich manylion cofrestru a'u diwygio ar-lein trwy GCCarlein. Gellir sganio tystiolaeth ddogfennol o newid a'u llwytho trwy **GCCarlein**. Beth am wirio bod eich manylion yn gyfredol pan fyddwch yn diweddaru eich cofnod o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP)?

# Ffioedd cofrestru

### Debyd Uniongyrchol

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei chael yn haws talu trwy Ddebyd Uniongyrchol gan ei fod yn ffordd ddibynadwy a diogel o dalu eich ffi cofrestru yn brydlon bob tro. I osod debyd uniongyrchol, mewngofnodwch i'ch cyfrif **GCGarlein**, agorwch y ddewislen 'Fy nghofrestriad' a dewis 'Gosod debyd uniongyrchol'.

### Ffi flynyddol

Bydd eich ffi cofrestru flynyddol yn ddyledus bob blwyddyn ar ben-blwydd eich dyddiad cofrestru. Byddwn yn anfon nodyn atgoffa i'ch cyfeiriad e-bost cofrestredig, felly mae'n bwysig diweddaru'r rhain. Ni fydd y ffi flynyddol yn cael ei had-dalu os byddwch yn gadael y Gofrestr ar ganol y flwyddyn. Bydd methu â thalu eich ffi flynyddol yn golygu y bydd eich cofrestriad yn dod i ben a'ch enw'n cael ei dynnu o'r Gofrestr.

### Adnewyddu

Mae cofrestriad am hyd at dair blynedd. Bob tair blynedd, byddwch yn cael eich gwahodd i adnewyddu eich cofrestriad ac yn talu eich ffi adnewyddu. Esbonnir sut i adnewyddu eich cofrestriad ar dudalen 16.

Gallwch **ofyn am gael dileu eich enw oddi ar y Gofrestr** ar unrhyw adeg os nad ydych mewn rôl ble mae angen cofrestru mwyach.

Os byddwch yn **gadael i'ch cofrestriad ddod i ben** trwy beidio â gwneud cais a **heb ofyn am gael dileu eich enw oddi ar y Gofrestr**, bydd eich enw'n cael ei ddileu oddi ar y Gofrestr. Bydd unrhyw ffi cofrestru neu adnewyddu sy'n ddyledus yn daladwy pan fyddwch yn gwneud cais i ddychwelyd ar y Gofrestr, yn ogystal â'r ffi gwneud cais.

Yn **GCCarlein**, gallwch:

- weld cofnod o'ch taliad, a'i argraffu
- trefnu talu trwy Ddebyd Uniongyrchol
- gwneud taliad newydd
- e-bostio dderbynebau am y taliadau rydych wedi'u gwneud

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am ffioedd cofrestru ar ein gwefan, sef: **gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/ffioedd-cofrestru**

# Adnewyddu eich cofrestriad

Mae eich cofrestriad yn para am dair blynedd.

Nid yw cofrestriad yn cael ei adnewyddu fel mater o drefn. Bydd angen i chi wneud cais i adnewyddu yn GCCarlein a bydd angen i chi ddangos i ni eich bod yn parhau i fodloni ein meini prawf ar gyfer gweithio ym maes gofal cymdeithasol, yn yr un modd ag y gwnaethoch pan gofrestroch chi am y tro cyntaf.

**Byddwn dim ond yn adnewyddu eich cofrestriad:**

- os ydych chi wedi cyflawni unrhyw amodau sydd ynghlwm â'ch cofrestriad
- os ydych yn darparu tystiolaeth o'r canlynol:
  - addasrwydd llawn i ymarfer
  - cymeriad a chymhwysedd
  - ymddygiad da
  - addasrwydd corfforol a meddyliol i ymarfer mewn gwaith cymdeithasol neu faes gwaith gofal cymdeithasol yr ydych yn dymuno gweithio ynddo
  - gallu
- Bydd angen i chi ddangos y DPP rydych wedi'i wneud a sut y mae wedi cyfrannu at eich ymarfer. Os ydych yn weithwr cymdeithasol neu'n rheolwr gofal cymdeithasol bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o gwblhau 90 awr o DPP. Os ydych yn weithiwr gofal cymdeithasol bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o gwblhau 45 awr o DPP.
- os ydych wedi cwblhau unrhyw ofyniad hyfforddi ac yn darparu tystiolaeth o'ch cymhwyster
- os ydych wedi talu eich ffioedd cofrestru.

### Sut i adnewyddu eich cofrestriad

Byddwn yn defnyddio eich manylion cyswllt cofrestredig i anfon nodyn atgoffa i adnewyddu cofrestriad atoch cyn i'ch cyfnod cofrestru ddod i ben. Gallwch lenwi eich ffurflen adnewyddu ac anfon eich cofnod hyfforddi ar-lein (DPP) atom drwy eich **GCCarlein**. **Rhaid i chi anfon cais adnewyddu cyflawn atom o leiaf 21 diwrnod cy n y dyddiad disgwyliedig i gynnal eich cofrestriad.**

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth fanwl am adnewyddu ar ein gwefan, yn: **Sut i adnewyddu eich cofrestriad**

# Eich datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

**Beth yw DPP?**

Rhaid i'r holl bobl gofrestredig gwblhau DPP ym mhob cyfnod cofrestru tair blynedd. Rhaid i weithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol ddarparu tystiolaeth o gwblhau 90 awr o DPP. Mae angen i weithwyr gofal cymdeithasol ddarparu tystiolaeth o gwblhau 45 awr o DPP. Rhaid i chi gadw cofnod o'r DPP hwn, gallwch wneud hyn trwy fewngofnodi yn eich cyfrif GCCarlein ac ychwanegu cofnodion ar unrhyw adeg y byddwch yn cwblhau hyfforddiant neu ddysgu perthnasol. Os ydych yn gyflogedig, siaradwch am eich hyfforddiant gyda'ch rheolwr. Dechreuwch gofnodi eich DPP a chasglu eich portffolio tystiolaeth cyn gynted ag y bo modd ar ôl i chi gofrestru.

Gallwch ychwanegu cofnod yn eich DPP GCCarlein ar unrhyw adeg.

Dylech ddechrau gwneud hyn cyn gynted ag y bo modd ar ôl i chi gofrestru a diweddaru eich cofnod yn rheolaidd.

Cofiwch gadw portffolio tystiolaeth. Mae chwe awr o hyfforddiant a dysgu yn cyfrif fel un diwrnod.

**Beth sy'n cyfrif fel DPP?**

Gall DPP gynnwys astudio, hyfforddiant, cyrsiau, dysgu yn y gwaith, seminarau, darllen, addysgu, astudiaethau achos neu weithgareddau eraill y gellid disgwyl yn rhesymol y byddant yn ychwanegu at ddatblygiad proffesiynol y gweithiwr gofal cymdeithasol, neu'n cyfrannu at ddatblygiad y proffesiwn yn gyffredinol.

Gellir cael gwybodaeth ddefnyddiol am beth i'w gofnodi a sut i'w gofnodi:

- **yn sut i fodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig**

**Pan ofynnon ni i chi am ychwanegu datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) at eich GCCarlein, dyma a ddywedoch chi wrthyn ni:**

Gwefan wych. Roedd y ffurflen adnewyddu yn syml iawn a'r DPP yn hawdd i'w ychwanegu!

Bydd gallu diweddaru cyrsiau hyfforddi wrth i ni fynd yn ein blaenau yn gwneud ailgofrestru yn llawer symlach.

Mae bellach yn llawer haws cofnodi DPP.

Mae cofnod DPP yn ffordd ragorol o ddiweddaru'r holl hyfforddiant/datblygu yn rheolaidd.

Mae'r proffil hyfforddiant ar-lein yn rhagorol gan ei fod yn dal y math hwn o wybodaeth mewn un lle fel ei bod ar gael yn hawdd.

# Cynnal eich cofrestriad a gadael y Gofrestr

**I gynnal eich cofrestriad, rhaid i chi:**

- dalu eich ffi bob blwyddyn
- dilyn y safonau yn y **Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol**
- parhau â'ch datblygiad proffesiynol
- cynnal a chofnodi eich datblygiad proffesiynol parhaus gofynnol ym mhob cyfnod cofrestru tair blynedd
- gwneud cais i adnewyddu eich cofrestriad bob tair blynedd tra'n gweithio mewn rôl ble mae cofrestru yn orfodol i ymarfer.

### Beth i'w wneud pan nad oes angen i chi fod wedi cofrestru mwyach

Mae'r Gofrestr ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n ymarfer sy'n gallu cynnal eu datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn eu rôl gofrestredig. Os nad ydych yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol mwyach, gallwch ofyn yn wirfoddol am gael dileu eich enw oddi ar y Gofrestr trwy eich **GCCarlein**. Yn eich cyfrif, ewch i 'Fy Nghofrestriad', dewiswch 'Dileu' a chwblhau'r cwestiynau. Gallwch ofyn am ddileu eich enw hefyd trwy anfon e-bost neu lythyr. **Sylwer: nid yw cais ar lafar i ddileu eich enw oddi ar y Gofrestr yn dechrau'r broses ddileu.**

Wedyn, byddwn yn cysylltu â'ch cyflogwr, neu'ch cyflogwr blaenorol ac unrhyw gorff rheoleiddio arall yr ydych wedi cofrestru ag ef ar hyn o bryd, i gael cadarnhad nad ydych yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol mwyach neu fod dim angen i chi gofrestru mwyach ac nad oes gennych faterion addasrwydd i ymarfer presennol.

Ni ellir dileu eich enw oddi ar y Gofrestr nes bydd unrhyw fater addasrwydd i ymarfer presennol wedi'i gwblhau.

Byddwch yn parhau i fod wedi cofrestru nes y ceir hysbysiad ynglŷn â dileu eich enw.

### Cofrestriad sy'n dod i ben

Rhaid i chi gwblhau eich adnewyddiad o leiaf 21 diwrnod cyn eich dyddiad adnewyddu, os na fyddwch yn gwneud hyn, gallai eich cofrestriad ddod i ben a byddwn yn anfon hysbysiad o fwriad atoch chi a'ch cyflogwr hysbys diwethaf i ddileu eich enw oddi ar y Gofrestr. Os daw eich cofrestriad i ben a bod eich enw'n cael ei ddileu oddi ar y Gofrestr, ni allwch ymarfer yng Nghymru mwyach.

### Dychwelyd i'r Gofrestr

Os yw eich cofrestriad wedi dod i ben a bod angen i chi ddychwelyd i'r Gofrestr, bydd angen i chi fewngofnodi'n ôl i'ch cyfrif GCCarlein a:

- chyflwyno cais newydd ar gyfer cofrestru
- talu unrhyw ffioedd sy'n ddyledus
- bodloni'r holl ofynion
- cyflenwi eich cofnod datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) os bydd angen.

Gallwch fewngofnodi i'ch **GCCarlein** neu fynd i: **gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru**

### Dychwelyd i ymarfer gwaith cymdeithasol

Os ydych wedi bod allan o ymarfer gwaith cymdeithasol am dros dair blynedd ac yn dymuno cofrestru, bydd angen i chi ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfredol o ymarfer cyfoes ym maes gwaith cymdeithasol a gwneud cais i gofrestru. Mae manylion llawn am y Polisi Dychwelyd i Ymarfer Gwaith Cymdeithasol ar gael yma: **gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/ceisiadau-i-gofrestru**



# Datblygiad Proffesiynol Parhaus i Weithwyr Cymdeithasol

Mae'n ofynnol i weithwyr cymdeithasol fel rhan o'u codau ymarfer proffesiynol gynnal eu safonau, eu gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol.

Adran 6: "Rhaid i chi fod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb am gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau" [1].

Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn helpu gweithwyr cymdeithasol i fyfyrio a chanolbwyntio ar sut i ddod yn ymarferwyr mwy cymwys, effeithiol ac effeithlon. Yn dangos ymrwymiad clir i hunanddatblygiad, gan nodi bylchau mewn gwybodaeth a sgiliau i'w datrys a mynd i'r afael â nhw.

Mae'n bwysig bod gweithwyr cymdeithasol yn tystio ac yn cofnodi'r holl ddatblygiad proffesiynol a dysgu. Gall y wybodaeth hon gyfrannu at eich datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) fel rhan o'ch adnewyddiad cofrestriad a hefyd at ddatblygiad personol.

Yng Nghymru rhaid i bob gweithiwr cymdeithasol gwblhau'r rhaglen Cydgrynhoi cyn adnewyddu ei gofrestriad, mae hwn yn ofyniad gorfodol.

| | |
|---|---|
| **Y rhaglen gadarnhau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso** | Rhaid i bob gweithiwr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso yng Nghymru, o fewn y cyfnod cofrestru tair blynedd cyntaf y maent yn ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol, gwblhau'r Rhaglen Cydgrynhoi. Dim ond ar ôl iddynt ei gwblhau'n llwyddiannus y byddant yn gallu adnewyddu eu cofrestriad.<br><br>Mae hefyd yn rhan o'r fframwaith **Tair blynedd gyntaf o ymarfer** sydd wedi'i gynllunio i gynorthwyo gweithwyr cymdeithasol i gydgrynhoi a datblygu eu harbenigedd wrth iddynt drosglwyddo o waith cymdeithasol i raddio i ymarferydd cymwys. |

Am fwy o wybodaeth, ewch i: **gofalcymdeithasol.cymru/qualifications-funding**

1. "Y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol 2017" tudalen 16

# Gofalwn Cymru

Mae ar Gymru angen tuag 20,000 o bobl ychwanegol yn gweithio mewn gofal erbyn 2030 os yw am gadw i fyny â'r galw cynyddol am ofal a chymorth. Ym mis Mawrth 2019, gwnaethom lansio Gofalwn Cymru, sef ymgyrch genedlaethol i helpu i ddenu mwy o bobl i weithio mewn gofal.

Mae'r ymgyrch yn canolbwyntio ar sut beth yw gweithio gydag oedolion a phlant:

## Gweithio gydag oedolion

**Gall gweithio gydag oedolion mewn gofal cymdeithasol fod yn heriol. Ond i'r unigolyn cywir, gall fod yn werthfawr dros ben.**

**Gweithiwch mewn gofal cymdeithasol i fod yn achubiaeth i'ch cymuned.**

## Gweithio gyda phlant

**P'un a ydych eisiau arwain tîm neu weithio i chi'ch hun gartref, mae yna rôl i chi. Mae amrywiaeth o yrfaoedd ar gael yn gweithio gyda phlant.**

**Helpwch i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i gyrraedd ei llawn botensial.**

Mae gan yr ymgyrch ei gwefan ei hun, **gofalwn.cymru**, sy'n amlygu'r cyfleoedd amryfal i weithio gydag oedolion a phlant, ac mae'n rhoi cyfle i bobl glywed sut beth yw gweithio mewn gofal gan y rhain sydd eisoes yn gwneud y gwaith hwnnw. Mae hefyd yn cynnwys rhestr gynyddol o ddarparwyr gofal sydd â swyddi yr hoffent eu llenwi.

Ewch i wefan Gofalwn Cymru i gael mwy o wybodaeth am yr ymgyrch. Hefyd, gallwch gofrestru'n rhad ac am ddim fel cyflogwr sy'n chwilio am staff: **www.gofalwn.cymru**



# Eich cynorthwyydd cofrestru

Mae eich cofrestriad wedi'i seilio ar gwestiynau a dderbyniwyd gan ein staff. Os oes gennych gwestiwn yr hoffech iddo ymddangos, cysylltwch â ni: **cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru**

| | | |
|---|---|---|
| A allaf i ddefnyddio GCCarlein ar fy ffôn symudol? | → | Gallwch! Mae **GCCarlein** wedi cael ei ddatblygu i weithio ar ffonau symudol a chyfrifiaduron llechen, sy'n golygu y gallwch fewngofnodi'n hawdd ar unrhyw adeg. |
| Sut ydw i'n talu fy ffioedd? | → | Y ffordd hawsaf a mwyaf cyfleus o dalu eich ffioedd yw trwy Ddebyd Uniongyrchol, a bydd y Warant Debyd Uniongyrchol yn rhoi sicrwydd i chi. Gallwch ddechrau Debyd Uniongyrchol newydd, neu ddewis talu â cherdyn credyd neu ddebyd ar-lein yn eich cyfrif **GCCarlein**. |
| Hoffwn fewngofnodi yn GCCarlein a dydw i ddim yn gallu cofio fy nghyfrinair. Allwch chi helpu? | → | Gwyddom y gall fod yn anodd cofio cyfrinair, felly rydym wedi ychwanegu opsiwn 'wedi anghofio'ch cyfrinair' ar sgrin mewngofnodi GCCarlein. |
| Hoffwn wybod mwy am fy maes gwaith. A yw hyn yn rhywbeth y gallwch chi helpu ag ef? | → | Ydy! Mae gennym lawer o wybodaeth ar ein gwefan gofalcymdeithasol.cymru. Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth yn ein hadroddiadau blynyddol am y gweithlu cofrestredig hefyd. |
| Beth mae angen i mi ei wneud i ddiweddaru fy manylion fel fy nghyfeiriad cartref neu e-bost? | → | Gallwch ddiweddaru eich manylion yn gyflym a hawdd, a gellir gwneud hyn trwy fewngofnodi i'ch cyfrif **GCCarlein**. |
| A allaf i ddiweddaru fy nghofnod hyfforddiant (DPP) yn rheolaidd? | → | Gallwch. Rydym yn annog pawb i ychwanegu eu hyfforddiant at eu cyfrif GCCarlein yn rheolaidd. Mewngofnodwch i'ch cyfrif ac ewch i 'Fy Nghofrestriad', dewiswch **datblygiad proffesiynol parhaus** o'r ddewislen ac ychwanegu'ch cofnod. |
| Beth yw fy nyddiad cyflwyno? | → | Eich dyddiad cyflwyno yw'r dyddiad mae angen i chi gyflwyno adnewyddiad cyflawn, mae hyn yn cynnwys llenwi'r ffurflen adnewyddu ar-lein, y cofnod hyfforddiant a'r ffi. Bydd hwn yn rhoi digon o amser i ni brosesu eich adnewyddiad cyn y dyddiad adnewyddu. Bydd eich cofrestriad yn derfyn os nad ydyn ni wedi derbyn adnewyddiad cyflawn cyn eich dyddiad adnewyddu. |
| Sut ydw i'n profi fy mod i wedi cofrestru? | → | Gallwch weld eich statws a'ch manylion cofrestru amser real yn eich cyfrif **GCCarlein** trwy glicio ar y ddewislen ar yr ochr chwith a dewis 'Fy mhrawf o gofrestriad'. Gall pobl chwilio amdanoch chi ar y Gofrestr ar ein gwefan hefyd. |
| Sut gallaf i anfon fy tystysgrif cymhwyster at y tîm cofrestru? | → | Gellir sganio eich dogfennau, ac wedyn eu llwytho i'ch cyfrif **GCCarlein** neu anfon atodiad neges e-bost i **cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru**. GCCarlein yw'r ffordd cyflymaf. |

# Gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol

Yn adran adnoddau ein gwefan, gallwch fynd at ystod o gyhoeddiadau, clipiau fideo a dolenni ar-lein. Gallwch chwilio am air allweddol hefyd, neu ddewis categori, a phori: **gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau**

Gallwch ddod o hyd i ddolenni at rai o'n cyhoeddiadau defnyddiol yma:

**Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol – adnoddau**

**Adnoddau cofrestru GCCarlein**

**Dyletswydd gonestrwydd**

**Y Fframwaith Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus (DAPP) ar gyfer gweithwyr**

**cymdeithasol Rheolau addasrwydd i ymarfer**

**Fideos am gofrestru y gallwch eu gwylio a rhannu efo eich cydweithwyr**

# Manylion cyswllt

Gallwch gael mwy o wybodaeth ar ein gwefan: **gofalcymdeithasol.cymru**
E-bost: **cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru**
**aiy@gofalcymdeithasol.cymru**
**@GofCymdeithasol** **/GofalCymdeithasolCymruSocialCareWales**
Gallwch siarad â ni o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 5pm.
Llinell gymorth ar gyfer cofrestru: **029 2078 0646**
Addasrwydd i ymarfer: **029 2078 0648**

**Gofal Cymdeithasol Cymru**
South Gate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW
E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru | Gwefan: gofalcymdeithasol.cymru

© (2022) Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaiff unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei hatgynhyrchu, ei storio mewn system adalw na'i throsglwyddo ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd o flaen llaw gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylai ymholiadau ynghylch atgynhyrchu y tu hwnt i'r cwmpas a ganiateir gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddwyd uchod.

# Fformatau eraill

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu mewn fformatau eraill, os bydd angen.

Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Saesneg.